"Cewch yfed y cwpan yr wyf fi yn ei yfed, a bedyddir chwi â'r bedydd y bedyddir fi ag ef, ond eistedd ar fy llaw dde neu ar fy llaw chwith, nid gennyf fi y mae'r hawl i'w roi; y mae'n perthyn i'r rhai y mae wedi ei ddarparu ar eu cyfer."
(Marc 10:39)

Dyma Iesu'n rhagfynegi dioddefaint ei ddisgyblion ac yn dangos nad oedd yn gwybod beth fyddai safleoedd y disgyblion yn y nef. Mae'n amlwg, felly, nad yw'n fater hanfodol.

Cais Iago ac Ioan

Mae fersiwn Mathew o'r un hanes yn dweud wrthym bod mam y dynion ifainc wedi dod gyda nhw i ddod â'r cais gerbron Iesu. Felly, mae'r tri yn dod gyda'i gilydd i ofyn am gael bod yr agosaf at Iesu pan fydd mewn gogoniant.

Pwyntiau da. Mae'r cais yn dangos nifer o bwyntiau cadarnhaol yn y disgyblion a'u mam. Mae nhw'n credu y daw Iesu i'w ogoniant ryw ddydd. Maen nhw'n credu y bydd yn teyrnasu rywbryd. Mae'n anodd dweud pa mor glir oedden nhw ynglŷn â natur brenhiniaeth Crist. A oedden nhw'n disgwyl brenhiniaeth ddaearol yn weddol fuan?

Mae'r cais hefyd yn dangos eu bod yn awyddus i fod yn agos at yr Arglwydd. Mae'n nhw'n honni hefyd eu bod yn barod i ddioddef gyda'r Arglwydd, er mai gadael Iesu yn awr ei brawf wnaeth yr holl ddisgyblion.

Pwyntiau negyddol. Ar y llaw arall, mae'r cais yn dangos agweddau annoeth a myfiol. Doedden nhw ddim wedi aros i feddwl beth fyddai goblygiadau eu cais o ran ei ddylanwad ar y gweddill. Os bydden nhw o bobtu'r Gwaredwr ar ei orsedd, ble byddai'r gweddill? Mae'n amheus a oedden nhw wedi ystyried bod eraill yn fwy cymwys na nhw i fod yn y mannau gorau. Mae hynny'n dangos pa mor hunanol oedd y cais, mewn gwirionedd.

Ateb Iesu

Mae ateb Iesu yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'n gofyn a oedden nhw'n barod i ddioddef gydag ef. Mae'r cyfeiriad at 'gwpan' yn awgrymu 'cwpan digofaint' yr Hen Destament: **"Deffro, deffro, cod, Jerwsalem; yfaist o law yr Arglwydd gwpan ei lid"** (Es.51.17). Mae'r Arglwydd Iesu'n cyfeirio at y cwpan eto yn Gethsemane wrth weddïo: **" 'Abba! Dad!' meddai, 'y mae pob peth yn bosibl i ti. Cymer y cwpan hwn oddi wrthyf"** (Marc 14.36). Mae'n sôn am gymryd digofaint Duw a ddylai gael ei gyfeirio at ein pechod ni. A oedd y ddau

frawd yn deall hyn ac yn cydsynio i hyn? Mae'n anodd credu eu bod yn deall yn iawn ystyr Crist wrth gyfeirio at y cwpan.

Yna mae'n sôn am 'fedydd'. Mae'r gair bedydd yn awgrymu y byddai'n cael ei orlethu gan ddioddefaint a phoen (Luc 12.50). Efallai bod yfed y cwpan yn arwydd o ufudd-dod gweithredol yr Arglwydd, a bod darlun y bedydd yn cyfleu ei ufudd-dod goddefol yn well.

Mae Iesu'n dangos, felly, nad oedd modd meddwl am goron a theyrnas heb y groes. Roedd Ef yn deall yn iawn na fyddai byth yn teyrnasu nes iddo ddioddef ar Galfaria.

Cewch yfed…

Er fod dioddefaint Iesu'n unigryw gan ei fod yn ddirprwyol, mae perthynas agos rhwng yr hyn wynebodd ef a'r hyn mae ei ddilynwyr yn ei brofi. Mae Paul yn sôn am adnabod Crist: **"a grym ei atgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefiadau"** (Phil.3.10). Nid fod ganddo ran yn aberth iawnol Crist, oherwydd gorffennwyd y gwaith hwnnw un waith ac am byth. Serch hynny, dyw'r byd ddim wedi gorffen erlid Crist, ac mae'n gwneud hynny trwy erlid ei Eglwys. Mae geiriau Iesu'n broffwydoliaeth o'r hyn oedd i ddigwydd i'w ddisgyblion, felly. Cafodd Iago'i ladd â'r cleddyf gan Herod (Act.12.2). Bu Ioan yn alltud ar ynys Patmos **"ar gyfrif gair Duw a thystiolaeth Iesu"** (Dat.1.9).

Hawl y Tad

Yna mae Iesu'n dweud bod safleoedd uchel teyrnas Dduw wedi eu darparu eisoes (yn nhragwyddoldeb). Does dim hawl gan y Cyfryngwr i newid hynny nawr. Yn fersiwn Mathew mae Iesu'n ychwanegu mai gan y Tad mae'r hawl a'r wybodaeth.

Blaenoriaethau anghywir

Yn dilyn hyn, mae'r deg disgybl arall yn gwylltio gyda'r ddau frawd. Yn anffodus, roedd y deuddeg yn meddwl gormod am safleoedd uchel yn y deyrnas. Roedd eu meddwl yn gnawdol ac yn fydol, ac mae hyn yn wers i ni. Mae mor hawdd trosglwyddo meddylfryd y byd i'r Eglwys.

Greddf y dyn naturiol yw ymddyrchafu ac felly esgyn yn uwch nag eraill. Does dim ots os caiff eraill eu sathru dan draed yn y broses. Rhaid ceisio gras i warchod ein hunain rhag i'r meddwl hwn ddylanwadu arnom wrth gymharu gweinidog neu eglwys neu enwad neu draddodiad.

Gadewch i ni fodloni ar berthyn i deyrnas Crist a'i wasanaethu'n frwd.